*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 520 (Cy.63)

# TRAFNIDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cytundebau Cymhorthdal Gwasanaeth (Tendro) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *5 Mawrth 2002* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 91(1) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cytundebau Cymhorthdal Gwasanaeth (Tendro) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Diwygio Rheoliad 3 o Reoliadau Cytundebau Cymhorthdal Gwasanaeth (Tendro) 1985

**2.** Yn lle rheoliad 3 o Reoliadau Cytundebau Cymhorthdal Gwasanaeth (Tendro) 1985(**3**) rhoddir y canlynol:

> "**3.**—(1) There is excluded from section 89(1) of the Act any service subsidy agreement entered into by an authority during a financial year if the aggregate amount of the service subsidies payable by the authority under that agreement during that financial year, taken together with the service subsidies payable in that financial year under any other service subsidy agreement or agreements already entered into by that authority does not exceed the specified limit for that authority for that financial year.
>
> (2) For the purposes of this regulation the specified limit in respect of any financial year is 40 per cent of the authority's total budgeted expenditure for service subsidies for that financial year and if any question arises as to the amount of the specified limit in relation to

(**1**) 1985 p. 67.

(**2**) Mae adran 137(1) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 yn diffinio "regulations" yn y Ddeddf honno fel "regulations made by the Secretary of State." Mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau o dan adran 91(1) o'r Ddeddf honno, mewn perthynas â Chymru, wedi eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1985/1921

an authority for a financial year the certificate of the chief financial officer of that authority as to its total budgeted expenditure for service subsidies for that financial year shall be conclusive for the purposes of this regulation.

(3) In determining, for the purposes of paragraph (1) of this regulation, the amount or aggregate amount of service subsidies payable in any financial year under a service subsidy agreement there shall be included any specific amount the payment of which is dependent on a contingency.

(4) This regulation has effect only in relation to Wales."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*

5 Mawrth 2002

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio, mewn perthynas â Chymru, Reoliadau Cytundebau Cymhorthdal Gwasanaeth (Tendro) 1985 ("y prif reoliadau") fel y'u diwigiwyd gan Reoliadau Cytundebau Cymhorthdal Gwasanaeth (Tendro) (Diwygio) 1989, 1994 a 1998. Mae'r darpariaethau yn y prif reoliadau sy'n cael eu diwygio yn darparu ar gyfer eithriadau i'r gofyniad i o dan adran 89 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 i dendro os yw awdurdodau lleol yn dod i gytundebau ar gyfer darparu gwasanaethau bysiau lleol sy'n destun cymhorthdal gwasanaeth.

Mae Rheoliad 3 o'r prif reoliadau yn darparu ar gyfer esemptiad rhag y gofyniad i dendro os yw'r cytundeb yn darparu am daliadau llai na £12,000 mewn unrhyw gyfnod o 12 mis oni bai bod y swm agregedig y mae gweithredwr gwasanaeth yn ei gael gan yr awdurdod lleol hwnnw o dan gytundebau felly yn fwy na £70,000.

Yn lle hynny, mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn darparu i'r eithriad fod yn gymwys i unrhyw gytundeb neu gytundebau lle nad yw'r taliadau odanynt yn fwy na 40 y cant o gyfanswm y gwariant y mae awdurdod wedi'i gyllidebu ar gyfer cytundebau felly mewn unrhyw flwyddyn ariannol honno.